

“Digidol Anedig” yn ACT

Cofrestrïad Digidol

Yn unol ag agenda “Digidol Anedig” Llywodraeth Cymru, ym mis Rhagfyr 2018, dechreuodd ACT gyflwyno proses gofrestru hollol ddigidol ar gyfer ein darpariaeth Prentisiaethau; mae'r broses hon yn dileu'r angen am bentyrrau o ddogfennau cofrestru ac mae'n broses llawer iawn symlach ac effeithlon ar gyfer staff ac yn broses fwy diddorol i'r dysgwyr.

Mae'r broses yn defnyddio system effeithlon a threfnus ar y we sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion Llywodraeth Cymru, gan arbed oddeutu 60 munud o fiwrocratiaeth orfodol i bob aelod o staff a dysgwyr, gan sicrhau bod y profiad cychwynol yn fwy pwrpasol i ddysgwyr a chyflogwyr Prentisiaethau.

Mae'r system gofrestru ddigidol yn integreiddio'n llawn â'n e-bortffolio Maytas MIS ac OneFile, a chaiff cyfrifon dysgwyr eu creu yn awtomataidd ar gyfer OneFile a WEST. Mae adborth gan ddysgwyr hyd yn hyn wedi bod yn hynod o gadarnhaol, yn enwedig gan unigolion sydd wedi cael profiad blaenorol o gofrestru ar bapur.

Mae 3 is-gontractwr eisoes wedi dechrau rhagbrofi'r system a byddant yn ei chyflwyno yn raddol ar draws eu darpariaeth yng Ngwanwyn 2019; mae ACT yn bwriadu cyflwyno'r system yn llawn ar draws ei holl ddarpariaeth cyn diwedd 18/19. Mae ACT yn darparu hyfforddiant i staff partneriaid ynghylch y system a darperir cymorth llawn drwy gydol y broses gyflwyno

Mae ACT hefyd wedi arddangos y system i 3 darparwr arall ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith ac mae dau arall wedi cysylltu â hi; mae'r darparwyr hyn yn ystyried atebion addas ar gyfer eu sefydliadau eu hunain ac rydym wedi rhannu ein gwersi a ddysgwyd â nhw.

Adolygiadau Digidol a IALP

Fel rhan o'n gweithrediad “Digidol Anedig”, roedd dau brif llyn' cofrestru digidol oedd un a digideiddio ein darpariaeth ymhellach oedd y llall. Rydym wedi bod yn defnyddio e-bortffolio OneFile ers nifer o flynyddoedd, ond roeddem yn dymuno troi ei hadolygiadau a'n IALPs yn ddigidol.

Fe wnaethom ragbrofi'r broses hon ym mis Hydref 2018 gyda'n timau darparu Prentisiaethau, a daethom yn gwbl ddigidol (heblaw am rai eithriadau) ar ddiwedd Hydref 2018.

Mae'r IALP a'r Adolygiadau wedi'u cysylltu â'n MIS, gan ddileu oedi amser o ran prosesu gwybodaeth ar bapur a hefyd galluogi dysgwyr, aseswyr a staff cymorth i gael trosolwg cynhwysfawr o daith y dysgwr wrth glicio botwm.

Yn ogystal â gwelliannau o ran effeithlonrwydd, mae digido adolygiadau yn cael effaith gadarnhaol ar daith y dysgwr ac mae adborth gan ddysgwyr, cyflogwyr ac aseswyr hyd yn hyn wedi bod yn hynod o gadarnhaol.

Mae gweithredu'r system yn cyd-fynd â nod strategol ACT i wella effeithlonrwydd yn rheolaidd ar draws ACT, a chaiff cynnydd tuag at y nod hwn ei adolygu'n rheolaidd gan fwrdd ac uwch dîm rheoli ACT.

Mae ACT yn cydweithio â phartneriaid sy'n defnyddio OneFile a meddalwedd e-bortffolio arall i ddigido adolygiadau ac IALP ar draws ein rhwydwaith partneriaid. Fe wnaethom arddangos y systemau i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru cyn eu gweithredu, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion ac rydym yn cynorthwyo cydweithwyr archwilio yn LIC i dreialu'r ragbrofi'r archwiliad o'r prosesau "Digidol Anedig".
